



ADRODDIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2020

O 2017 ymlaen, bydd rhaid i unrhyw sefydliad o fewn y DU sy'n cyflogi 250 neu fwy o weithwyr adrodd yn gyhoeddus ar ei fwllch cyflog rhwng y rhywiau. Gofynnir i ni adrodd ar y bwllch cyflog cymedrig a chanolrif rhwng y rhywiau yn ogystal â dadansoddiad, yn ôl chwarterlau o gyfran y dynion a'r menywod ym mhob chwarter, yn seiliedig ar gyfradd fesul awr.

Y bwllch cyflog rhwng y rhywiau yw'r gwahaniaeth rhwng y gyfradd gyflog wirioneddol fesul awr rhwng gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, er gwaethaf pa rôl sydd ganddynt gyda'r Gwasanaeth. Mae'r cyfrifiadau hyn yn seiliedig ar enillion net unigolyn a dalwyd ym mis Mawrth 2020 ac maent yn cynnwys elfennau fel cyflog, lwfansau, honoraria a thaliadau aberthu cyflog.

Mae hyn yn wahanol i gyflog cyfartal, sef y gwahaniaeth, o ran cyflog, rhwng dynion a menywod sy'n ymgymryd â'r un rolau ac yn cael cyfradd gyflog wahanol. Rydym yn hyderus bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am ymgymryd â rolau cyfatebol ar draws y Gwasanaeth, gan fod staff yn cael eu talu, yn amherthnasol i ryw, gan ddefnyddio graddfeydd cyflog y cytunwyd arnynt yn genedlaethol.

Data Cymedrig a Chanolrif

Y gwahaniaeth rhwng dynion a menywod


	Cymedrig (Cyfartalog)	Canolrif (Punt Canol)
Cyfradd yn ôl yr awr	14.59% (16.34%)	14.59% (20.92%)

Noder: At ddibenion cymharu, y ffigyrau mewn cromfachau yw ffigyrau 2019.

Dengys y tabl uchod ein Bwllch Cyflog rhwng y Rhywiau cymedrig (cyfartalog) a chanolrif yn seiliedig ar gyfraddau cyflog fesul awr fel yr oeddynt ar yr 31ain o Fawrth 2019. Gellir gweld y bu gwelliant sylweddol yn ffigyrau cymedrig yn ystod 2019. Er y gwelodd y Gwasanaeth beth llwyddiant wrth gynyddu nifer y cytundebau cyflogaeth a sicrhawyd gan weithwyr benywaidd, bu cynnydd cyfansymiol mewn cytundebau yn gyffredinol.

O gymharu 2019 â 2020, mae'r gyfradd gyflogau canolrif fesul awr, ar gyfer gweithwyr benywaidd, wedi cynyddu 3.80% gyda'r gyfradd ar gyfer gweithwyr gwrywaidd yn gostwng 1.63%. Mae hyn wedi arwain at welliant sylweddol yn y gwahaniaeth o 14.59% a welir ar hyn o bryd.

Chwarterlau Tâl (ar gyfraddau cyflog fesul awr)



Mae'r wybodaeth uchod yn disgrifio'r dosbarthiad yn ôl rhyw o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru fel y mae ar yr 31ain o Fawrth 2020, yn unol â gofynion Adrodd am Fwllch Cyflog rhwng y Rhywiau.



ADRODDIAD BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU 2020

Mae'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau yn seiliedig ar gyfartaledd cyflog benywod a gwrywod, felly mae'n bosib mai un o'r achosion mwyaf ohono yw nifer y merched a'r dynion mewn gwahanol rolau ac ar wahanol lefelau'r sefydliad.

Os bydd mwyafrif y gweithwyr yn y lefelau cyflog uwch yn wrywaidd a mwyafrif y gweithwyr yn y lefelau cyflog isaf yn fenywaidd, mae'n debygol bydd bwlch cyflog rhwng y rhywiau, er y telir pawb â'r gyflog gywir ar gyfer y rolau maent yn ymgymryd â hwy.

Mae rhesymau eraill a all gyfrannu at fwllch yn cynnwys:

- Telerau ac amodau a chyfraddau cyflog gwahaniaethol i grwpiau o staff ar draws y Gwasanaeth
- Cyfran uchel o fenywod yn aml mewn rolau rhan-amser sydd â chyflogau isel
- Dewisiadau'n ymwneud â thâl neu ddyrchafiad a wneir ar wahanol adegau yn ystod oes waith unigolyn
- Buddion gweithwyr megis cynlluniau aberthu cyflog h.y. Talebau Gofal Plant neu daliadau Beicio i'r Gwaith

Mae sawl achos craidd posib i'r rhesymau hyn. Gall rai bod yn bersonol, fel dewisiadau a wnaed gan bobl oherwydd eu hamgylchiadau eu hunan, eu blaenoriaethau gwaith a'u dyheadau. Mae achosion eraill yn rhan o gymdeithas yn gyffredinol, fel y rolau yr atynnwyd pobl atynt yn hanesyddol neu'r hyn maen nhw'n teimlo'n gyfforddus i weithio ynddynt. Gan fod cynifer o ffactorau cyfrannol i fwllch cyflog rhwng y rhywiau, does dim un datrysiad syml sy'n datrys popeth.

Fel rhan o'n Strategaeth Recriwtio ac Atynnu Gweithredol, mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n annog yn weithredol ceisiadau gan ferched o bob cefndir, ar draws pob rôl ac mae hefyd yn gweithio'n weithredol â grwpiau ffocws i ddeall yn well sut ydym yn chwalu unrhyw rwystrau ymddangosiadol fydd yn atal merched rhag ymgymryd â rolau gwisg o fewn y Gwasanaeth.

Cau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau

Rydym yn ymrwymedig i barhau i leihau'r bwlch cyfansymiol ac arddangosir hyn drwy law'r mentrau dilynol.

Ein prosesau - recriwtio, cadw a datblygu gweithlu amrywiol:

- Sifft Rhyw Cymysg a phanelau chyfweld
- Sifftio cudd lle tynnir pob nodwedd adnabod
- Newid canfyddiad o rhai rolau o fewn y Gwasanaeth drwy law ein hymgyrchoedd yn y cyfryngau
- Datblygu llwybrau dysgu newydd i'r staff cyfan

Cyngorydd Tudor Davies, MBE
Cadeir, Awdurdod Tân ac Achub De Cymru